# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 7fed o Ragfyr 2017 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Ciliau Aeron

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dai Evans, Helen Evans, John Lumley, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies
Denfer Morgan (Clerc).

**66 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies ac Iwan Thomas a am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**67 Materion Personol**

Mynegwyd cydymdeimliad yr Aelodau gyda'r Cynghorydd Helen Evans yn dilyn marwolaeth Mr Tom Morgan, ei brawd yng nghyfraith. Estynwyd llongyfarchiadau hefyd I'r Cynghorydd Evans ar enedigaeth ei hwyr.

**68 Datgelu Buddiannau Personol a Rhai Sy'n Rhagfarnu**

Fe fu i'r Cynghorywr Arwel Jones, John Lumley a Gwyndaf Morgan ddatgelu buddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yng ngheisiadau cynllunio A171026 a A171027 y cyfeirir atynt yng Nghofnod 72c) isod.

**69 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 2il o Dachwedd 2017.

**70 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Trefniadau Bancio

Gofynwyd i'r Clerc fwrw 'mlaen i symud cyfrifon y Cyngor i Fanc Barclays.

b) Cyfyngiad Cyflymdra Ciliau Aeron

Nodwyd ateb y Cyngor Sir a bod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu yn dilyn y mater i fyny. Cytunwyd hefyd y gallai'r Cyngor ddechrau paratoi tystiolaeth o or-yrru a danwiniau.

c) Postyn BT ger Bont Teglan

Nodwyd nad oedd y gwaith wedi'i orffen gan BT.

**71 Cais am Gymorth Ariannol**
Rhoddwyd ystyriaeth pellach i gais Pwyllgor Gwelliannau Tref Aberaeron am gyfraniad i'w Hapêl Cerbyd Ymatebydd Cyntaf. Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn rhagor o fanylion am y cais a bod yr Apêl yn parhau.

**PENDERFYNWYD** cyfrannu £200 i'r Apêl.

**72 Ceisiadau Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol a **PHENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) Cais Cynllunio A171006 - Bidaren, Cilcennin. Cais ôl-weithredol ar gyfer symud rhan o wrychoedd ac ail-leoli gatiau i fynedfeydd presennol.

Dim gwrthwynebiad.

b) Cais Cynllunio A171034 Rhiwlas Uchaf, Cilcennin. Codi sied amaethyddol a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiad.

c) Ceisiadau Cynllunio A171026 (Llawn) a A171027 (Caniatâd Adeilad Rhestredig) Commercial Inn, Cilcennin. Newid Defnydd o'r presennol er mwyn creu cyfanswm o 4 uned byw (sef 2 yn ychwanegol at y ddau presennol), ynghŷd â newidiadau mewnol a mân newidiadau allanol er mwyn caniatau hynny.

Dim gwrthwynebiad gan ofyn i'r datblygwyr ddefnyddio enwau Cymraeg fel rhan o'r datblygiad.

**73 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-

a) talu'r canlynol:-

Cyflog y Clerc (2il Chwarter Hyd-Tach-Rhag 2017-18):

| | |
|---|---|
| Mr Denfer Morgan | £266.02 |
| CThEM (TWE) | £66.51 |

b) nodi derbyn ail daliad y Praesept oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion yn y swm o £1,266.67;

c) nodi Adroddiad Monitro Cyfrifon 2017-18 Rhif 1 a bod y gwariant o fewn y Gyllideb;

d) gohirio’r drafodaeth ar gais Eglwys Cilcennin am gyfraniad ariannol tuag at gost adnewyddu’r Eglwys er mwyn cael rhagor o fanylion am y cais; a

e) annog Aelodau unigol i ymateb I holiadur Ymgynghoriad Praesept yr Heddlu 2018/19

**74 Diwygio Cynghorau Bro a Thref**

Dywedodd y Clerc ei fod wedi mynd i’r Digwyddiad Ymgynghori yn San Cler ar y 4ydd o Ragfyr a bod Un Llais Cymru yn paratoi ymateb drafft ar gyfer canol Ionawr.

**PENDERFYNWYD** gofyn i’r Clerc adrodd ar yr Ymateb Drafft yn y cyfarfod priodol nesaf.

75 **Ymgynghoriadau**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r ymgynghoriadau canlynol:-

- Ymgynghoriad GIG Cymru ar Rwydwaith Trawma Mawr i Dde a Gorllewin Cymru a De Powys
- Cynllun Corfforaethol Drafft Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru ar gyfer 2018-2023 (anfonwyd atoch 29/11/2017)
- Ymgynghoriadau Cyngor Sir Ceredigion:

Adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol
Cynllun Llesiant Lleol drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.
Arolwg Trosedd ac Anrhefn.

**PENDERFYNWYD:**

i) annog Aelodau i ymateb yn unigol i’r gwahanol ymgynhoriadau; a
ii) nodi y bydd Adolygiad y Cyngor Sir o’r Cynllun Datblygu Lleol yn mynd yn ei flaen.

**76 Cyfarfod Ymgynghorol y Cyngor Sir**

Rhoddwyd ystyriaeth i wahoddiad i benodi cynrychiolwyr i fynd i gyfarfod ymgynghorol gyda chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion ar nos Fawrth 9fed Ionawr 2018 yn Ysgol Bro Pedr am 6.30 pm ‘i drafod materion sydd o ddiddordeb cyfredol i’r ddau gorff’.

**PENDERFYNWYD** penodi’r Cynghorwyr John Lumley a Ray Williams I fynd I’r cyfarfod ymgynghorol.

**77 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) **Gwefan y Cyngor.** Cyfeiriodd y Clerc at neges a dderbyniwyd oddi wrth Owen Llywelyn, a oedd yn gyfrifol am gynnal gwefan y Cyngor. Nodwyd ei gyngor bod angen ystyried newid darparwr yn fuan a gofynwyd i'r Clerc ddechrau trafod y ffordd ymlaen gydag ef.

b) Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies ei fod wedi derbyn sawl cais ar gyfer lleoli arosfeydd bysus, bob ochr i'r ffordd, ger y fynedfa i Blas Llanerchaeron yn 'Crossway', Ciliau Aeron. Nodwyd, yn ogystal a hwyluso teithio i unigolion lleol, y byddai arosfeydd bysus yma yn helpu hybu ymweliadau i'r plasdy. Cytunwyd gofyn i'r Cyngor Sir ystyried cyflwyno arosfeydd bysus bob ochr i'r A482 ar gyffordd Crossway. Dywedodd y Cynghorydd Marc Davies ei fod eisoes wedi trafod y posibilrwydd gyda'r swyddog perthnasol ac y byddent yn fodlon ystyried cais o'r fath ar gost o ryw £250 yr un.

c) Gofynwyd i'r Clerc ddwyn y canlynol i sylw'r Cyngor Sir:

- Draen wedi blocio mewn lleoliad a ddisgrifiwyd
- Coeden wedi cwympo mewn lleoliad a ddisgrifiwyd
- Cwesitiynu paham nad oedd y darn o ffordd yn arwain o'r Neuadd Pentref i'r Ysgol Gynradd yn cael ei graeanu.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30 pm